# ADRODDIAD CYNLLUN PARTNERIAETH LLYWODRAETH LEOL 2003-2004

## Cyflwyniad

1.1 O dan Adran 113(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae’n ofynnol i’r Cynulliad Cenedlaethol wneud cynllun yn nodi sut mae'r Cynulliad, wrth arfer ei swyddogaethau, yn bwriadu cynnal a hybu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae hefyd yn ofynnol i’r Cynulliad baratoi adroddiad ar ôl pob blwyddyn ariannol, sy’n dangos sut y cafodd y cynigion a nodwyd ganddo yn y Cynllun eu gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

1.2 Cytunwyd ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2000 a’i ddiweddaru ym mis Mawrth 2004. Dyma’r pedwerydd adroddiad ar y ffordd y caiff y cynllun ei weithredu. Paratowyd yr adroddiad mewn cydweithrediad ag aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru.

## Partneriaeth

***Yr ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, mudiadau gwirfoddol a chyrff busnes.***

2.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn atebol wrth wneud penderfyniadau ac yn eu perthynas â’i gilydd ac â’r cyhoedd.

2.2 Mae’r Gweinidog dros Gyllid wedi bod yn rhoi gwybodaeth yn rheolaidd i’r Cyngor Partneriaeth am ddatblygiad Adolygiad y Cynulliad o Wariant ers ei gyhoeddi yn Hydref 2003. Bu Cyfarwyddwr yr Adolygiad o Wariant yn trafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac fe gytunwyd y byddai cynrychiolwyr CLILC yn cymryd rhan yn holl weithdai Ymarferiad Gwerthuso'r Adolygiad o Wariant (SpREE). Cynhaliwyd y gweithdai tua diwedd Mawrth a dechrau Ebrill 2004 i werthuso’r prif raglenni gwariant ym mhortffolio pob Gweinidog o’u cymharu â meini prawf y Cabinet, a gafwyd o “Cymru: Gwlad Well”.

2.3 Bu Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â llywodraeth leol i baratoi adroddiadau’r Is-grŵp Gwariant a’r Is-grŵp Dosbarthu. Trafodwyd y ddwy ddogfen yn y Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid ac fe’u defnyddiwyd wrth baratoi setliad llywodraeth leol 2004-2005.

2.4 Ym mis Mehefin 2003, cyhoeddwyd yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, Yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a gynghorwyd gan Derek Wanless. Ers hynny, cafwyd llawer o gydweithio adeiladol rhwng y Cynulliad, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol (BILl) wrth weithredu argymhellion yr Adolygiad. Yn neilltuol, bu awdurdodau a Byrddau yn cydweithio’n adeiladol i baratoi Cynlluniau Gweithredu Lleol Wanless ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian tuag at gyflawni’r gwaith.

2.5 Mae awdurdodau lleol ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cydweithio hefyd. Mae awdurdodau'n hunan-asesu eu perfformiad o ran cynllunio, caffael a chyflenwi gofal cymdeithasol ac mae'r Arolygiaeth yn cynnig arweiniad ynghylch sut y gellid cryfhau eu perfformiad. Erbyn hyn, ceir cytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a CLILC ar brotocol ar gyfer delio â sefyllfaoedd sy'n achosi pryder difrifol i'r Arolygiaeth. Mae hyn yn cynnig proses ar gyfer datrys achosion unigol trwy weithio mewn partneriaeth adeiladol.

2.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf (RhCCG) i sicrhau bod Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru yn cael y gefnogaeth angenrheidiol. Consortiwm o wyth mudiad gwirfoddol yw'r RhCCG.

2.7 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroi i adeiladu cymunedau cryfach a mwy diogel ac i gymryd camau cadarn yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cynulliad yn cydweithio'n agos â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a arweinir gan awdurdodau lleol a'r heddlu ac sy'n gweithredu strategaethau i leihau troseddu ac anhrefn ym mhob rhan o Gymru. Cryfhawyd y Partneriaethau yn 2003 trwy ychwanegu awdurdodau heddlu a thân a Byrddau Iechyd Lleol fel partneriaid statudol o ganlyniad i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Eisoes, mae'r Partneriaethau'n cael eu hannog i ymwneud â'r sectorau gwirfoddol a busnes a bydd Cynghorydd Troseddau Busnes newydd yn y Cynulliad yn datblygu dull o weithio mewn partneriaeth â'r sector busnes.

2.8 Parhawyd i weithio ar y prosiect Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion. Cynhaliwyd rhagor o ddigwyddiadau yn y De (Mehefin) a'r Gogledd (Hydref) i ledaenu negeseuon yr adroddiad ar ran gyntaf y prosiect a oedd yn canolbwyntio ar ysgolion uwchradd. Mae'r ail ran sy'n canolbwyntio ar ysgolion cynradd ar y gweill a disgwylir yr adroddiad ddiwedd hydref 2004.

2.9 Yn ogystal, roedd Deddf Diwygio'r Heddlu yn rhoi dyletswydd statudol ar y Partneriaethau i ddatblygu a gweithredu strategaethau lleol i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Mae Swyddogion Diogelwch Cymunedol penodedig yn gweithio yn ardal pob awdurdod unedol ac mae swyddogion newydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymuno â nhw. Mae'r Cynulliad a'r Swyddfa Gartref yn cyfrannu symiau sylweddol o arian tuag at y camau a gymerir yn erbyn troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Anogir y Partneriaethau i drefnu bod eu gwaith yn cyd-fynd yn dda â strategaethau lleol asiantaethau eraill. Mae'r cydweithio clòs rhwng y Cynulliad, llywodraeth leol a'r heddlu yn hybu'r gwaith ledled Cymru ac mae hynny'n cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch personol ac ansawdd bywyd pobl.

2. 10 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) yw'r grŵp sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru. Mae CLILC yn un o 17 o aelodau craidd sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn i hybu a monitro camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru ac i gynghori'r Cynulliad ar y mater. Yn ogystal,

mae CLlLC yn cadeirio Grŵp Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru (GGBC), sy'n is-grŵp i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac sy'n helpu ecolegwyr llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, y parciau cenedlaethol a sefydliadau eraill y llywodraeth i roi cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol ar waith. Mae GGBC yn trefnu hyfforddiant, yn cyhoeddi canllawiau ac yn trefnu seminar flynyddol. Y llynedd, cafwyd anerchiad yn y seminar gan Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Mae'r bartneriaeth hon wedi gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni amcanion a thargedau allweddol, yn enwedig o ran codi ymwybyddiaeth a hybu bioamrywiaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol.

2.11 Yn dilyn seminarau yn y Gogledd a'r De, dosbarthwyd canllawiau cynhwysfawr i awdurdodau lleol ym mis Awst 2002 ar y pwerau a roddir gan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002. Roedd gan yr holl awdurdodau lleol bolisïau adnewyddu tai yn eu lle erbyn mis Gorffennaf 2003 fel y mynnwyd yn y Gorchymyn.

2.12 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian i gefnogi Uned Cydraddoldebau y tu mewn i CLlLC. Mae'r Uned yn cynghori'r Cynulliad ar effaith ei bolisïau ar faterion cydraddoldeb ym maes llywodraeth leol yng Nghymru; mae'n trefnu cyfarfodydd rheolaidd i'r holl gyrff cydraddoldeb sy'n gweithredu yng Nghymru i ystyried, gyda'i gilydd, sut orau i gydweithio i hybu cydraddoldebau yn awdurdodau lleol Cymru; ac mae'n rhoi sawl math o gymorth uniongyrchol i awdurdodau lleol wrth iddynt ymateb i'r agenda cydraddoldebau.

2.13 Ym mis Mai 2003, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad ei adroddiad ar yr "Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid". Er mwyn helpu i lunio ymateb Llywodraeth y Cynulliad, trefnodd swyddogion y Cynulliad a CLlLC seminar yn Llandrindod ym mis Tachwedd a daeth dros 50 o gynrychiolwyr yno, yn bennaf o lywodraeth leol a'r GIG. Cafodd y gwahanol argymhellion ym meysydd gwasanaethau llety, iechyd ac addysg eu hystyried.

2.14 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ddau gyfarfod gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol i drafod y canllawiau diwygiedig a gynigiwyd ar wersylla heb ganiatâd ac astudiaeth ymgynghorol arfaethedig i asesu anghenion Sipsiwn a Chrwydriaid yng Nghymru o ran llety.

2.15 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i gydweithio'n agos â llywodraeth leol. Un enghraifft o'r cydweithio hwn yw Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) sy'n cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol yn unigol ac ar y cyd. Mae pob un o'n tair swyddfa ranbarthol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phob Awdurdod Lleol ac fe gynhelir cyfarfodydd ar gyfer Cymru gyfan ddwywaith y flwyddyn. Mae gan Gyngor y Celfyddydau gynllun awdurdodau lleol sy'n rhoi cyllid cychwynnol i benodi swyddogion datblygu'r celfyddydau ym mhob awdurdod lleol. Llwyddwyd i wneud hyn fwy neu lai dros Gymru gyfan. Yn ogystal, caiff cynlluniau awdurdodau lleol fel y Theatr a'r Ganolfan Gelfyddydau newydd

yng Nghasnewydd, Clwyd Theatr Cymru yn Sir y Fflint ac Oriel Glynn Vivian yn Abertawe gyllid yn uniongyrchol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r Cyngor yn bartner blaenllaw gyda'r awdurdodau lleol yn cefnogi prosiectau celfyddydau annibynnol lleol fel Valleys Kids yn y Rhondda a Theatr Mwldan yng Ngheredigion. Mae gan CCC femorandwm dealltwriaeth drafft gyda CLILC ac mae'n gobeithio cwblhau'r fersiwn derfynol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

2.16 Enghraifft arall o hyn yw'r bartneriaeth rhwng Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Dinas a Sir Abertawe. Mae ganddynt bartneriaeth unigryw i ddatblygu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar gost o £30 miliwn. Ariennir y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Amcan Un, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a chyfraniadau o'r sector preifat. Bydd yr Amgueddfa yn adrodd stori diwydiant ac arloesedd yng Nghymru ers y Chwyldro Diwydiannol pan ddatblygodd Cymru'n genedl ddiwydiannol gyntaf y byd. Disgwylir i Amgueddfa'r Glannau agor yn yr haf 2005. Mae cynllun "Sharing Treasures - Cyfoeth Cymru Gyfan" yn defnyddio arian gan Lywodraeth y Cynulliad i wella cyfleusterau amgylcheddol a diogeledd mewn amgueddfeydd ac orielau lleol fel y gellir dangos eitemau o'r casgliadau cenedlaethol mewn canolfannau ledled Cymru. Eisoes cynhaliwyd arddangosfeydd peilot yn amgueddfeydd yr awdurdodau lleol yn Wrecsam ac Aberhonddu (yn ogystal ag yn Oriel Ynys Môn yn Llangefni ym mis Mawrth 2003)

**Cytundebau Polisi**

3.1 Daeth cylch cyntaf y cytundebau polisi i ben yn llwyddiannus ac fe gafodd pob un o'r 22 o brif awdurdodau Cymru eu cyfran lawn o'r Grant Cymell Perfformiad gwerth £30 miliwn a ddyrannwyd yn ôl fformwla ym mis Chwefror 2004. Roedd y ffordd o ddyrannu'r arian wedi'i seilio ar brotocol gwerthuso y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a CLILC. Roedd yr asesiad o'r perfformiad yn cael ei ystyried ac roedd yn talu sylw i amgylchiadau neilltuol yr awdurdodau unigol.

3.2 Mae'r cylch cyntaf o gytundebau polisi wedi esgor ar welliannau gwirioneddol mewn meysydd polisi sy'n strategol bwysig fel gofal cymdeithasol, cyrhaeddiad addysgol ac ailgylchu/compostio. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol unigol yn trafod y cylch nesaf o gytundebau polisi. Seilir y cytundebau newydd, a ddatblygwyd gan weithgor yn y Cyngor Partneriaeth, ar egwyddorion tebyg i'r rhai cyntaf ond fe'u datblygwyd mewn ffordd sy'n caniatáu mwy o gydbwysedd rhwng canlyniadau strategol cenedlaethol a blaenoriaethau y penderfynir arnynt yn lleol.

3.3 Seilir prosbectws y cytundebau polisi ar weledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a welir yn “Cymru: Gwlad Well”, ac mae’r mesurau a nodir yn cynnwys rhai ym meysydd addysg, tai, gofal cymdeithasol ac effeithlonrwydd ynni. Rhai dewisol yw’r mesurau y penderfynir arnynt yn lleol ond mae’n rhaid eu bod yn gysylltiedig â’r themâu strategol a nodir yng ngweledigaeth strategol Llywodraeth y Cynulliad.

3.4 Ceir Grant Cymell Perfformiad o £30 miliwn y flwyddyn am y cyfnod 2004 – 2007 yn gysylltiedig â’r cytundebau polisi newydd. Unwaith eto, bydd yr asesiad o’r perfformiad a'r cysylltiad â dyraniad y grant wedi’u seilio ar brotocol gwerthuso y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a CLlLC. Bydd yr asesiad yn ystod y cylch cytundebau hwn yn cynnwys adolygiad blynyddol o’r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd cerrig milltir ar y ffordd tuag at dargedau 2007.

3.5 Cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyllid y llynedd nad yw’n bwriadu adolygu prosiectau menter cyllid preifat (PFI) yng Nghymru na chyhoeddi cylch ceisiadau arall ar gyfer credydau menter cyllid preifat awdurdodau lleol. Ar ôl cyflwyno trefniadau “Benthyca Darbodus” newydd o 1 Ebrill 2004 ymlaen, bydd gan awdurdodau fwy o ryddid i fynd ar ôl y ffordd fwyaf addas o sicrhau buddsoddiad cyfalaf, yn cynnwys PFI.

3.6 Bydd Llywodraeth Leol yng Nghymru yn cael grantiau refeniw cyffredinol gwerth dros £3 biliwn tuag at wasanaethau rheng flaen y flwyddyn nesaf. Fel y cytunwyd gyda llywodraeth leol, cyflwynodd y Cynulliad y setliad refeniw blynyddol ar gyfer awdurdodau unedol chwe wythnos yn gynt nag yn y flwyddyn flaenorol. Rhoddodd hyn ragor o gyfle i’r awdurdodau i baratoi eu cyllidebau ar gyfer 2004-2005. Ar yr un pryd, cyhoeddodd y Cynulliad fanylion y grantiau y tu allan i’r setliad a fydd hefyd yn cyfrannu at gyllid awdurdodau lleol yn 2004-2005. Gwnaed hyn er mwyn i’r awdurdodau gael cymaint o wybodaeth ag oedd modd am gymorth y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol i’w helpu i baratoi eu cyllidebau. Ar gyfartaledd, cafwyd cynnydd o 7.4% yn y grantiau sylfaenol, i £211 miliwn. Yn ogystal, bydd yr awdurdodau lleol yn cael Grant Cymell Perfformiad o £30 miliwn i gydnabod eu cynnydd tuag at gyrraedd targedau cytunedig mewn perthynas ag amcanion allweddol ym meysydd addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth a’r amgylchedd.

3.7 Fel y nodwyd yn y datganiad ar y cyd ar setliad refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2004-2005 a lofnodwyd gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 3 Rhagfyr 2003, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod ei bod yn rhaid i gynlluniau newydd a chyfrifoldebau newydd gael eu hariannu’n llawn cyn eu trosglwyddo i lywodraeth leol.

3.8 Cafodd Awdurdodau tri Pharc Cenedlaethol Cymru £9.609 miliwn o Grant Parciau Cenedlaethol gan y Cynulliad yn 2003-2004, sef cynnydd o 11.2% ar setliad 2002-2003.

## Arweinyddiaeth Gymunedol: Swyddogaeth Awdurdodau Lleol

### *Darparu'r fframwaith i gefnogi llywodraeth leol*

4.1 Mae'r awdurdodau a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt wedi symud ymlaen yn dda wrth baratoi strategaethau cymunedol. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd y rhan fwyaf o'r strategaethau cymunedol yn barod erbyn hydref 2004.

4.2 Mae'r Gweithgor Strategaethau Cymunedol wedi hwyluso'r broses hon. Cynhaliodd seminar llwyddiannus ym mis Gorffennaf gyda dros 130 o bobl yn bresennol a rhoddodd hyn gyfle i awdurdodau a'u partneriaid i drafod sut yr oeddent yn mynd ati i baratoi'r strategaethau ac i rannu arferion da a materion oedd yn peri pryder iddynt. Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn y seminar hon yn cael ei defnyddio yn adolygiad y Cynulliad o strategaethau cymunedol.

4.3 Cyfrannodd y Gweithgor Strategaethau Cymunedol at lyfryn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar strategaethau cymunedol ar gyfer y sector gwirfoddol a'r canllawiau i gydweithio a baratowyd ar y cyd gan y CGGC, CLILC a Llywodraeth Cynulliad Cymru “Dyfodol ar y Cyd? Canllaw i Gydweithio Rhwng Llywodraeth Leol a'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol yng Nghymru". Mae'r Gweithgor wrthi'n penderfynu ar feysydd fel meithrin gallu, ymgysylltiad cymunedol a monitro a gwerthuso strategaethau lleol lle mae angen cyngor ar awdurdodau lleol a'u partneriaid. Yn ogystal, mae'r Gweithgor yn cwblhau cynlluniau ar gyfer adolygu'r cylch cyntaf o strategaethau cymunedol er mwyn gweld pa mor effeithiol y bu'r broses ac a oes angen rhagor o gyngor neu gymorth.

4.4 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar wersi'n dangos sut y mae strategaethau cymunedol yn cael eu gweithredu mewn gwledydd eraill. Eisoes cafwyd trafodaethau rhwng Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) a Gweithrediaeth yr Alban ar y gwahanol ddulliau o weithredu strategaethau cymunedol mewn gwahanol rannau o'r DU a'u heffeithlonrwydd.

4.5 Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol ac, mewn sawl achos ar hyd a lled y wlad, maent yn arwain y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Yn ôl yr adolygiad o Cymunedau yn Gyntaf a gafwyd yn ddiweddar gan y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Huw Lewis AC, dylai hwyluso fod yn brif swyddogaeth i awdurdodau lleol. Mae'r Cynulliad yn cadarnhau hyn oherwydd mae gan awdurdodau lleol ran allweddol i'w chwarae yn hybu mentrau lleol. Mae swyddogion yn y Cynulliad wedi bod yn gweithio, a byddant yn dal i weithio, gydag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn llwyddo i gael y cydbwysedd cywir gyda chymunedau.

4.6 Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Grŵp Partneriaid Mewnol yn y Cynulliad i hwyluso cydweithio ar faterion sy'n ymwneud â strategaethau trawsbynciol y

Cynulliad. Diben y grŵp yw sicrhau cysondeb a chydgysylltiad yn null y Cynulliad o baratoi strategaethau.

4.7 Bu Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cydweithio ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn ystod 2003- 2004 i ddatblygu fformwla ariannu newydd sy'n seiliedig ar anghenion i lywio penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad o hyn ymlaen ynghylch dyrannu adnoddau.

## Moderneiddio Llywodraeth Leol yng Nghymru

***Moderneiddio strwythurau rheoli gwleidyddol, gwerthuso perfformiad a mabwysiadu'r safonau gonestrwydd uchaf***

5.1 Mae Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol yn rhannu ymrwymiad i greu democratiaeth fodern sy'n agored ac yn gyfranogol, lle caiff polisïau eu datblygu a'u gwerthuso'n agored ac mewn partneriaeth i ddiwallu anghenion a bodloni dyheadau pobl Cymru.

5.2 Mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella wedi ennill ei phlwyf erbyn hyn ac mae'n dechrau sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Serch hynny, derbynnir yn gyffredinol bod llawer o waith ar ôl i'w wneud i sicrhau holl fanteision y Rhaglen ar gyfer Gwella. Cafwyd cryn dipyn o drafod cyhoeddus ar y Rhaglen; mewn cyfarfodydd llawn o'r Cynulliad, yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn y Cyngor Partneriaeth. Un o nodweddion y drafodaeth hon yw bod llawer mwy nag arfer o gefnogaeth drawsbleidiol i'r Rhaglen fel fframwaith polisi effeithiol y gellir ei ddefnyddio i sicrhau bod pobl Cymru'n cael gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwella'n barhaus.

5.3 Cymerodd Awdurdodau pob un o Barciau Cenedlaethol Cymru ran weithredol ym mhroses y Dadansoddiad Awdurdod Cyfan yn ystod 2003-2004 ac maent wedi datblygu cynlluniau gweithredu er mwyn symud ymlaen â materion allweddol.

5.4 Cafwyd adroddiad gan y Comisiwn Archwilio ar y cynnydd a wnaed o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella a daeth i'r casgliad ei bod wedi creu ymwybyddiaeth o'r angen i wella gwasanaethau ond bod angen cryn dipyn o waith i droi'r ymwybyddiaeth honno'n ddealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi perfformiadau gwael ac i benderfynu beth y mae angen ei wneud i sicrhau gwell gwasanaethau.

5.5 Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad wedi bod yn cynnal adolygiad polisi o strwythurau gwleidyddol newydd llywodraeth leol dros y flwyddyn ddiwethaf a bydd yn cyhoeddi ei adroddiad cyn hir. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith a wnaed eisoes gan y Comisiwn Archwilio. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb i ddarganfyddion y Pwyllgor maes o law.

5.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu grŵp prosiect i symud ymlaen â'i chynigion ar gyfer rhesymoli cynlluniau. Amlinellwyd y rhain yn wreiddiol yn y ddogfen bolisi "Rhyddid a Chyfrifoldeb". Y nod yw lleihau nifer y cynlluniau a'r strategaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn i awdurdodau eu cynhyrchu - mae tua 30 ar hyn o bryd. Mae swyddogion y Cynulliad wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru ac Uned Ddata Llywodraeth Leol i oruchwylio'r gwaith. Gwneir y gwaith o gyfuno neu grwpio cynlluniau gan gyfres o is-grwpiau yn cynnwys ymarferwyr o feysydd y gwasanaethau penodol, swyddogion o'r Cynulliad a sefydliadau fel y Comisiwn Archwilio. Y bwriad yw sicrhau bod argymhellion y Cynulliad ar gyfer rhesymoli cynlluniau ar gael erbyn mis Ebrill 2005 a bod y cynigion yn cael eu gweithredu, hyd y bo modd, erbyn mis Ebrill 2006.

5.7 Comisiynwyd Prifysgol Cymru Aberystwyth gan Lywodraeth y Cynulliad i adolygu beth fydd swyddogaeth, gwaith a photensial cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfanswm o 75 o argymhellion. Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ar yr adroddiad rhwng mis Tachwedd 2003 a mis Mawrth 2004 ac fe gynhaliwyd cyfres o bedair seminar ledled Cymru ym mis Ionawr – yng Nghaerfyrddin, Cwmbrân, Llandrindod a Llandudno. Daeth dros 300 o bobl i'r seminarau hyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu ymateb yn ffurfiol i argymhellion yr adroddiad ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mehefin 2004 a pharatoi papur polisi yn amlinellu ei chynigion manwl ar gyfer cynghorau lleol dros yr haf.

5.8 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hwyluso'r symudiad gan y ddwy gymdeithas a geir ar hyn o bryd ar gyfer cynghorau cymuned – Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol Cymru – i sefydlu Un Llais i Gymru, sef un gymdeithas ar gyfer cynghorau cymuned Cymru. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Cynulliad yn cynorthwyo Gweithgor Un Llais i Gymru a sefydlwyd gan y cymdeithasau i gychwyn y corff newydd. Bu'n helpu i ddrafftio a chyhoeddi papur ymgynghori, prosbectws a oedd yn gwahodd cynghorau i ymuno â'r corff newydd, a chyhoeddusrwydd.

5.9 Yn unol ag argymhellion adroddiad Prifysgol Birmingham "Recognising Councillors Worth to their Communities", a gefnogwyd gan CLILC, mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo rheoliadau i gyflwyno Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd i gynghorwyr a fu yn y swydd yn hir ac sy'n ymddeol yn etholiadau 2004. Mae 8 awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu'r dyfarndaliadau.

5.10 Yn yr un modd, yn unol ag argymhellion eraill yn adroddiad y Brifysgol, mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo rheoliadau sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau pensiwn ar gyfer cynghorwyr. Yn amodol ar argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlir cyn hir, bydd y cynghorwyr sir yn y sesiwn newydd yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

5.11 Bu CLILC yn cymryd rhan mewn adolygiad o awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru fel aelod o’r grŵp llywio sy’n goruchwylio’r gwaith. Cyhoeddwyd canlyniad yr adolygiad gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Mawrth 2004.

**Cydgysylltu ac Ymgynghori â Llywodraeth Leol**

***Y Cyngor Partneriaeth a’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus***

6.1 Cyfarfu’r Cyngor Partneriaeth 18 gwaith hyd at fis Mawrth 2004. Cafwyd tri chyfarfod yn 2003-2004 yng Nghaerdydd a Wrecsam.

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ailgorfforwyd y Cyngor Partneriaeth yn dilyn etholiadau’r Cynulliad ym mis Mai 2003. Ar ôl ymgynghori â llywodraeth leol, penderfynwyd na ddylid newid patrwm aelodaeth y Cyngor Partneriaeth, a oedd yn cynnwys 25 aelod, ac fe ailgynullwyd Cyngor Partneriaeth newydd ar 13 Gorffennaf 2003.

6.2 Ymhlith y Gweithgorau sydd wedi adrodd yn ôl i’r Cyngor Partneriaeth dros y deuddeng mis diwethaf mae:

- Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

Ymhlith y materion polisi a drafodwyd mae:

- Cymru : Gwlad Well
- Cytundebau Polisi
- Adroddiad Wanless
- Astudiaeth Ymchwil Cynghorau Cymuned a Thref
- Trafnidiaeth yng Nghymru
- Dyfodol Gwasanaethau Plant
- Cynllun Gofodol Cymru

***Ymgynghori Mynych ac Agored***

6.3 Cyn gynted ag y bydd modd ac o fewn cyfyngiadau cyfrinachedd priodol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori â’r cymdeithasau sy’n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru ar bob mater sy’n effeithio ar lywodraeth leol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ag awdurdodau unigol, yn cynnwys cynghorau cymuned lle bo'n briodol, ar faterion polisi o bwys. Cydnabyddir ei bod yn rhaid i'r broses ymgynghori fod yn un lawn, agored a thryloyw a'i bod yn rhaid rhoi ystyriaeth briodol i'r amser a ganiateir. Ceir disgrifiad isod o rai enghreifftiau penodol o’r broses hon ar waith:

6.4 Yn ystod blwyddyn ariannol 2003-4, bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol a CLILC trwy’r Is-Grŵp Cyfalaf a Grŵp Gorchwyl a Gorffen y System Gyllid Cyfalaf i ddatblygu a gweithredu’r system

fenthyca ddarbodus.  Cyhoeddwyd nifer o bapurau ymgynghori a arweiniodd at ddwy set o reoliadau, set o ganllawiau statudol a newid yn ffurf y cymortyh a geir o'r Cynulliad ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf yr awdurdodau lleol.

6.5 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bapur ymgynghori ar 'Gydbwysedd Cyllid Awdurdodau Lleol yng Nghymru'. Mae'r papur hwn yn nodi hanes a chyd-destun y ffordd y caiff awdurdodau lleol eu hariannu yng Nghymru ac mae'n ceisio barn ar gwestiynau allweddol e.e. a yw'r cydbwysedd rhwng cyllid canolog a chyllid lleol yn briodol ac a ddylid newid neu wella'r ffyrdd o godi trethi lleol.  Bwriedir cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwn a'u cyflwyno i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog i gyfrannu at yr adolygiad o gydbwysedd cyllid awdurdodau lleol yn Lloegr.

6.6 Daethpwyd i gytundeb â llywodraeth leol i gwtogi ar yr ymgynghoriad ar y setliad dros dro i lywodraeth leol fel y gellid sicrhau setliad terfynol yn gynt.

6.7 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a CLILC wedi cytuno ar brotocol ar gyfer grantiau wedi'u clustnodi. Mae'r protocol yn nodi o dan ba amgylchiadau y mae'n briodol sefydlu grant wedi'i glustnodi ac mae'n nodi'r trefniadau ar gyfer monitro'r grantiau hynny gan ddilyn yr egwyddor mai at ddiben a chyfnod penodol y dylid caniatáu grantiau wedi'u clustnodi.

6.8 Ymgynghorwyd ar y Canllawiau ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) ac fe geir ymgynghori eto ar reoliadau arfaethedig y BIDS.

6.9 Ymgynghorwyd ar egwyddorion a chysyniadau sylfaenol y Cynllun Awdurdodau Lleol i Gymell Twf Busnesau (LABGI) yn 2003-2004. Bwriedir ymgynghori eto ar y model manylach yn 2004-2005.

6.10 Ymgynghorwyd â llywodraeth leol ar gyflwyno'r Caniatadau Cyffredinol o dan adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu cymorth ariannol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.  Ar ôl ymgynghori, cyflwynwyd Gorchymyn Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 ym mis Rhagfyr 2003 gan roi mwy o ryddid i awdurdodau lleol waredu tir am lai na'i werth.

6.11 O dan y Mesur Gwasanaeth Tân ac Achub, caiff cyfrifoldeb am y gwasanaeth yng Nghymru ei drosglwyddo'n ffurfiol i'r Cynulliad.  Er mwyn paratoi ar gyfer trosglwyddiad esmwyth, rydym eisoes yn datblygu ein polisïau ar gyfer y dyfodol.  Mae'r cyfnod ymgynghori ar Fframwaith Cenedlaethol Drafft Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yn para tan 3 Mai 2004.  Daw'r Fframwaith yn gyfrifoldeb statudol pan gaiff y Mesur y Cydsyniad Brenhinol, gan ffurfio'r 'contract' rhwng y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill, nodi ein disgwyliadau oddi wrth y partneriaid allweddol a beth y gellir ei ddisgwyl, yn ei dro, gan Lywodraeth y Cynulliad.  A hwythau'n randdeiliaid allweddol yn y broses, mae barn llywodraeth leol yn ganolog i'r ymgynghoriad ac i'r ffordd y bydd y Fframwaith a'r polisïau cysylltiedig yn datblygu o hyn ymlaen.

***Cyfnewid Gwybodaeth***

6.12 Mae Llywodraeth y Cynulliad, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau na ellir dianc rhagddynt a rheolau diogelu data, o blaid caniatáu i wybodaeth lifo'n rhydd rhyngddi hi, ei hasiantaethau a llywodraeth leol. Disgrifir rhai enghreifftiau penodol isod:

6.13 Mae Uned Ddata Llywodraeth Leol yn dal i gynnig gwasanaeth neilltuol ac arbenigol i awdurdodau lleol yng Nghymru – mae'n darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth ym mhob maes lle mae data yn rhan hanfodol o gyflawni gwasanaethau ac atebolrwydd. Mae'r Uned yn cydweithio'n agos â Chyfarwyddiaeth Ystadegau Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y ceisiadau a gaiff awdurdodau lleol am wybodaeth yn gyson ac yn gyflenwol. Yn ogystal, mae'r Uned Ddata yn rhoi cymorth amhrisiadwy i nifer o gynlluniau polisi, yn cynnwys yr Adolygiad Mesur Perfformiad, datblygu cytundebau polisi a gofynion data Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Erbyn hyn, mae'n cydweithio'n agos â'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i sicrhau bod y gofynion archwilio a dilysu ar gyfer dangosyddion perfformiad yn cael eu hintegreiddio ac nad ydynt yn cael eu dyblygu.

6.14 Yn ystod 2003-2004, mae nifer o awdurdodau lleol wedi rhoi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad am eu cynlluniau i wella'u gwasanaethau trwy wneud defnydd effeithiol o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

6.15 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn bod rhai gwendidau yn y trefniadau ar gyfer cyhoeddi cynlluniau'r Cynulliad i ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i Adroddiad Rhag-Gyllidebol y Canghellor. Cynhaliwyd trafodaethau gyda CLILC i geisio deall yr amgylchiadau a arweiniodd at y trafferthion hyn ac fe wnaed trefniadau i geisio sicrhau na fydd sefyllfa debyg yn codi eto.

6:16 Mae Operation Dragon, system y Cynulliad i fapio troseddu ac anhrefn, o blaid cyfnewid gwybodaeth yn rhydd rhwng yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol.

### *Trefniadau ar gyfer Cydweithio*

6.17 Mae Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol wedi ymrwymo i gydweithio i ddatblygu polisïau sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau Cymru. Mae'r Bwrdd ar gyfer Gwella a sefydlwyd ychydig dros flwyddyn yn ôl ac sydd wedi cyfarfod saith gwaith yn enghraifft ardderchog o'r math hwn o gydweithio. Mae'n cynnwys uwch swyddogion yn y sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Ceir ynddo linellau adrodd uniongyrchol i'r Cyngor Partneriaeth ac mae'n adrodd ar wahân i Lywodraeth y Cynulliad a Phwyllgor Cydgysylltu CLILC. Un elfen allweddol yn ei gylch gwaith yw'r gofyniad i oruchwylio a hybu camau i wella perfformiad llywodraeth leol yng Nghymru trwy roi Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar waith yn llwyddiannus. Mae wedi llwyddo i sicrhau agwedd gydgysylltiedig at y Rhaglen, i bennu meysydd penodol lle mae angen cymorth ac i weithredu ar

hynny. Bydd yn parhau i weithio i sicrhau agwedd hollol gydgysylltiedig at reoleiddio yn y Rhaglen ar gyfer Gwella.

6.18 Mae'r Protocol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, CLlLC a Chomisiwn Archwilio Cymru, sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd Gwella, wedi gweithio'n dda ac mae pawb sy'n rhan o'r cytundeb yn cytuno ei fod yn fframwaith effeithiol sy'n galluogi pawb i weithio'n unigol ac ar y cyd i hybu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

6.19 Yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2004, gofynnodd y Cyngor Partneriaeth am sefydlu cyd-weithgor newydd i sicrhau agwedd strategol newydd at TGCh mewn llywodraeth leol ledled Cymru. Ar ôl ei sefydlu, bydd y cyd-weithgor hwn yn sicrhau cydweithrediad a dealltwriaeth a bydd hyn hybu cydweithio ar draws awdurdodau lleol ym maes e-Lywodraeth.

6.20 Cyfarfu'r Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid dair gwaith yn ystod y flwyddyn. Yn y cyfarfodydd, cyflwynwyd adroddiadau'r tri is-grŵp, sef yr is-grwpiau Dosbarthu, Gwariant a Chyfalaf a buont yn trafod amserlenni ar gyfer y setliad blynyddol a'r protocol ar gyfer grantiau wedi'u clustnodi.

***Cydweithredu rhwng Swyddogion***

6.21 Bu swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a swyddogion llywodraeth leol yn cydweithio'n agos ar nifer o faterion ar draws swyddogaethau'r Cynulliad. Bu swyddogion a chynghorwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cymryd rhan yn y gweithgorau a sefydlwyd i weithredu'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o Wariant.

6.22 Bu Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i drefnu seminarau hyfforddi ar weithredu Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003. Roedd y seminarau'n esbonio swyddogaeth Llywodraeth y Cynulliad, Defra, y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, y Gwasanaeth Hylendid Cig, swyddogion awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Roeddent yn dangos agwedd aml-asiantaethol at orfodi'r Rheoliadau ac ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gydweithio ag awdurdodau lleol.

6.23 Ceir cynrychiolaeth o CLlLC ar y Gweithgor Strategaethau Digartrefedd sy'n cynghori ar ddatblygu a gweithredu y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd a strategaethau digartrefedd lleol. Roedd cynrychiolaeth o CLlLC hefyd ar y Grŵp Llywio ar gyfer Adolygiad HACAS o Weithredu Deddfwriaeth Digartrefedd a oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r adolygiad i'r ffordd y caiff deddfwriaeth digartrefedd ei gweithredu. Cynrychiolir CLlLC yn ogystal ar y Grŵp Gwerth Gorau ym Maes Tai, sef y Grŵp Gwelliant Parhaus ym Maes Tai erbyn hyn, sy'n cynghori ar weithredu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella mewn perthynas â gwaith awdurdodau lleol ym maes tai. Mae'r Grŵp

yn cydgysylltu’r adolygiad o fesurau perfformiad ym maes tai, fel rhan o Adolygiad ehangach y Cynulliad. Mae Fforwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cynghori ar Dai yn cefnogi datblygiad gwasanaethau cynghori ym maes tai yng Nghymru.

6.24 Mae llywodraeth leol wedi parhau i gymryd rhan yn y grŵp cyfeirio a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i ystyried gweithredu darpariaethau Deddf Addysg 2002 o ran llywodraethu ac ariannu ysgolion. Mae’r Adran Hyfforddiant ac Addysg yn dalu i gydweithio’n agos â Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg gan ddefnyddio eu gweithgorau mewn meysydd penodol yn gyfrwng i drafod yn rheolaidd gydag awdurdodau lleol.

6.25 Yn ogystal, sefydlwyd gweithgor ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar faterion trafnidiaeth.

## PENNOD 7: Adolygu’r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol

7.1 O dan Ran II o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, bydd yn rhaid i’r Cynulliad ddal i arolygu'r cynllun llywodraeth leol ac yn ystod y flwyddyn ar ôl pob etholiad cyffredin bydd yn ystyried a ddylai gael ei ail-wneud neu ei ddiwygio. Yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2003, roedd yr aelodau o’r farn fod y cynllun cyfredol yn sylfaen dda ar gyfer hybu cydweithio rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol ac nad oedd angen ad-drefnu’r cynllun yn sylfaenol. Serch hynny, roeddent yn cydnabod bod y testun wedi dyddio i ryw raddau ac fe gytunwyd y dylid ei ddiweddaru. Mae’r Ddeddf yn nodi na all y Cynulliad ddirprwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun, ei ail-wneud na’i ddiwygio ac, felly, mae'r Cyngor Partneriaeth, Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cyfarfod llawn wedi cytuno ar y testun diwygiedig. Bwriedir cyhoeddi’r cynllun diwygiedig ym mis Mai 2004.

## CASGLIAD

8.1 Ers ei sefydlu ym 1999, mae’r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol wedi esgor ar bartneriaeth lwyddiannus iawn rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a phob rhan o lywodraeth leol. Mae’r adroddiad hwn yn dangos yn glir bod y bartneriaeth yn dal yn effeithiol ac fe gydnabyddir bod rhan hanfodol gan lywodraeth leol i'w chwarae wrth gyflawni’r agenda strategol allweddol ar gyfer Cymru – gwell iechyd, mwy o swyddi a gwell swyddi, cymunedau cryfach a mwy diogel. Yr her o hyd yw sicrhau cyfatebiaeth rhwng blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, a strategaethau cymunedol awdurdodau lleol ac agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad. Mae’r gwaith o ddatblygu cytundebau polisi yn rhan bwysig o’r ffordd yr ydym yn rheoli blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.